

GweithdaiAber: Cymdeithaseg

Dod â'n harbenigwyr
academaidd at
eich dysgwyr



Beth yw GweithdaiAber?

Mae GweithdaiAber yn rhoi cyfle i'ch dysgwyr gael trafod â'n staff academiaidd cyfeillgar a chael eu dysgu ganddynt.

Bydd ein staff yn trafod deunydd safonol yn y pwnc, ac yn ogystal â sicrhau bod y disgyblion yn dysgu mwy am y maes, y nod hefyd yw eu hannog i ystyried mynd ymlaen i astudio disgyblaeth Cymdeithaseg yn y dyfodol.

Mae gennym amrywiaeth o ddarlithoedd/gweithdai â gogwydd academiaidd iddynt i'w cynnig mewn nifer o wahanol bynciau. Er na ellir gwarantu y bydd pob gweithdy wastad ar gael, mae GweithdaiAber yn hyblyg:



Gallwn eu hamrywio o ran eu hyd



Maent yn addas i gynulleidfaoedd bach neu fawr



Cyflwynadwy i grŵpiau blwyddyn 12-13



Ar gael dros y we



Ar gael wyneb-yn-wyneb yn yr ysgol neu'r coleg



Ar gael ar gampws Prifysgol Aberystwyth



Ar gael i ddysgwyr heb unrhyw wybodaeth flaenorol am y pwnc, yn ogystal â'r rhai sydd â diddordeb yn y maes. Nid oes rhaid i ddysgwyr fod yn astudio'r disgyblaethau Cymdeithaseg yn yr ysgol neu'r Coleg.



I archebu gweithdy neu i gael gwybod mwy, anfonwch e-bost i aberworkshops@aber.ac.uk

Cyflwyniad i Gymdeithaseg yn Aberystwyth

Mae Cymdeithaseg yn darparu sgiliau meddwl critigol pwysig sydd yn arwain at ystod eang o gyfleoedd gyrfa yn y sector cyhoeddus a phreifat, gan gynnwys datblygu polisi cymdeithasol ar gyfer llywodraeth leol a chenedlaethol, gweithio mewn sefydliadau elusennol a gwirfoddol, gwasanaethau heddlu, gwaith cymdeithasol, adnoddau dynol, newyddiaduraeth, ac addysg yn y cyfryngau.

Gan ganolbwyntio ar batrymau ymddygiad dynol, y cysylltiadau cymdeithasol mae pobl yn eu ffurfio a'r cymdeithasau a'r diwylliannau ehangach maent yn byw ynddynt, ceisia cymdeithasegwyr i ddeall strwythurau cymdeithasol a'i anfoneisïon a sut mae pobl yn ymddwyn o fewn y cyd-destunau hyn. Trwy ystyried materion allweddol cyfoes fel oedran, anabledd, mewnfudo, iechyd, y wladwriaeth les, ethnigrwydd, rhyw a rhywioldeb, a thrwy fabwysiadu safbwyntiau damcaniaethol a phrawf i feirniadu cymdeithas, gall cymdeithasegwyr ddod â newid trawsnewidiol i greu byd gwell i bawb.

Mae ymchwil socleolaidd ym Aberystwyth yn archwilio croestoriadau oedran, anabledd, dosbarth, rhyw, rhywiaeth, hil ac ethnigrwydd, yn ymwneud â phynciau swyddogaethol cyfoes allweddol sy'n gysylltiedig â risg (fel y dirwasgiad yn y gofal iechyd, mewnfudo, y wladwriaeth les neu'r argyfwng hinsawdd) lle gall gellir cymhwyso theori socleolaethol ac mae ganddo arwyddocâd yn y byd go iawn.

Mae sociologwyr yn Aber yn arweinwyr rhyngwladol yn eu meysydd ac yn gysylltiedig ag ymchwil gyffrous, gan gynnwys heneiddio a marwolaeth, pedagogi wedi'i hysbysu gan trawma, a feminenedd ddigidol, yn mynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol allweddol sy'n cael effaith sylweddol ar gymdeithas.



GweithdaiAber Astudiaethau Cymdeithaseg

Do we still need the NHS? – Dr Bethany Simmonds

EN

Rh

Mae cymdeithaseg iechyd yn un o is-feysydd cymdeithaseg, ac mae'n ganolog i ddadleuon allweddol am anghydraddoldeb mewn cymdeithas. Mae ymchwil yn y maes hwn yn darparu tystiolaeth bod y rhai sy'n fwy difreintiedig ac sydd â llai o adnoddau, megis grwpiau dosbarth gweithiol a lleiafrifoedd ethnig, neu bobl hŷn ac anabl (a chyfuniadau o'r hunaniaethau hyn) yn llai abl i lywio'r system iechyd dameidiog, heb gyllid digonol, yn y DU. Mae'r sgwrs hon yn ystyried dewisiadau amgen i'r GIG mewn gwledydd eraill, i drafod a oes angen y GIG arnom o hyd a'r modd y byddai talu am ofal yn effeithio o bosibl ar iechyd a lles y grwpiau hyn.

What is normal? – Dr Emma Sheppard

EN

Rh

Mae'r gweithdy rhyngweithiol hwn yn edrych ar normau cymdeithasol ac anabledd, gan ofyn i fyfyrwyr ddefnyddio sgiliau meddwl beirniadol yn eu bywydau bob dydd, tynnu ar eu profiad eu hunain, ac ystyried a yw 'normal' yn norm cymdeithasol. Bydd o ddiddordeb i fyfyrwyr sy'n astudio cymdeithaseg Safon Uwch, ond hefyd yn addas i fyfyrwyr sy'n ymddiddori ym maes addysg, gwleidyddiaeth neu ofal cymdeithasol.

Is Britain a patriarchal society? – Dr Yvonne Ehrstein

EN

Rh

Beth yw patriarchaeth? A yw'n dal i fodoli yn y Deyrnas Unedig gyfoes? A oes anghydraddoldeb rhwng menywod a dynion o hyd? All menywod a merched 'gael y cyfan'? A fydd dynion a bechgyn ar eu colled os bydd cysylltiadau rhywedd yn newid? A beth yw rôl ffeministiaeth yn hyn oll? Bydd y gweithdy hwn yn ystyried y cwestiynau hyn ac yn gwahodd y myfyrwyr i ymgysylltu'n feirniadol â'r term poblogaidd 'patriarchaeth', gan bwysu a mesur pa mor ddefnyddiol ydyw yng ngoleuni ffurfiau parhaus a newydd o anghydraddoldeb rhywedd ac ymchwydd ymgyrchoedd ffeministiaeth yn ogystal â chynnydd mewn casineb at fenywod ar draws sawl safle cymdeithasol.

Allwedd:

EN

Gellir ei gyflwyno yn Saesneg

MP

Gellir ei gyflwyno mewn person

CY

Gellir ei gyflwyno yn Gymraeg

Rh

Gellir ei gyflwyno yn rhithiol



I archebu gweithdy neu i gael gwybod mwy, anfonwch e-bost i aberworkshops@aber.ac.uk

Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear,
Prifysgol Aberystwyth,
Adeilad Llandinam,
Campws Penglais,
Aberystwyth, SY23 3DB

+44 (0)1970 62 2606

@ dgostaff@aber.ac.uk

/AUIGES

Wedi'u dylunio a'u cynhyrchu gan yr Adran
Farchnata Byd-eang a Denu Myfyrwyr,
Prifysgol Aberystwyth 2025.

